# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Rhagfyr 2016

Amser: 09.07 - 12.55

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3841

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Naomi Alleyne, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Anne Hubbard, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Catriona Williams, Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru<br>Cheryl Martin, Plant yng Nghymru<br>Rocio Cifuentes, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig<br>Shehla Khan, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig<br>Yr Athro Bill Yule, Cymdeithas Seicolegol Prydain<br>Dr Gillian Richardson, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan |

| | |
|---|---|
| | Roisin O'Hare, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Staff y Pwyllgor: | Christopher Warner (Clerc)<br>Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watkins AC, Rhianon Passmore AC a Janet Finch-Saunders AC.

## 2 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 4

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Anne Hubbard, Cyfarwyddwr, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru

2.2 Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu:

- gwybodaeth am gynlluniau'r Swyddfa Gartref ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches y gall awdurdodau lleol yng Nghymru gymryd rhan ynddynt, y tu allan i'r Cynllun Adsefydlu Ffoaduriaid Syria;
- enghreifftiau gan gydgysylltwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol o bobl leol yn y gymuned yn cefnogi ffoaduriaid, fel "cyfeillio" a darparu cymorth ieithyddol.

2.3 Cytunodd Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru i ddarparu copi o'r ymchwil a wnaed yn ddiweddar gan Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer

Ffoaduriaid (UNHCR) ar ffoaduriaid yng Nghymru sydd ar y cyfan wedi cael profiadau cadarnhaol o gael eu hadleoli yng Nghymru.

## 3 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 5

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Catriona Williams OBE, Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru
- Cheryl Martin, Swyddog Datblygu, Tlodi Plant, Plant yng Nghymru
- Rocio Cifuentes, Cyfarwyddwr, Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig
- Shehla Khan, Rheolwr, Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig

## 4 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 6

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Yr Athro Bill Yule, Cymdeithas Seicolegol Prydain
- Dr Gill Richardson, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Roisin O'Hare, Nyrs Ceiswyr Lloches, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

4.2 Cytunodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddarparu gwybodaeth am yr asesiadau iechyd a gynhaliwyd nyrsys plant sy'n derbyn gofal ar ffoaduriaid ifanc sydd eu pen eu hunain.

## 5 Papurau i’w nodi

### 5.1 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru: Nodyn ar yr ymweliad â Chyngor Ffoaduriaid yr Alban

5.1.a. Nododd y Pwyllgor y nodyn am yr ymweliad â Chyngor Ffoaduriaid yr Alban.

### 5.2 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig mewn perthynas â Rhan L y Rheoliadau Adeiladu

5.2.a. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig mewn perthynas â Rhan L y Rheoliadau Adeiladu.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 7 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru - trafod y dystiolaeth o dan eitemau 2, 3 a 4

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 8 Y Bil Undebau Llafur (Cymru): Trafod y dull o graffu

8.1 Datganodd yr Aelodau a ganlyn fuddiannau perthnasol fel aelodau o undebau:

- John Griffiths AC;
- Siân Gwenllian AC;
- Jenny Rathbone AC.

8.2 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull craffu Cyfnod 1 ar y Bil Undebau Llafur (Cymru).

## 9 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Economi Ddigidol

9.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i ofyn am eglurhad ynghylch goblygiadau hawliau dynol cymalau perthnasol y Bil.